Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 3 Mawrth 2021

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 11eg Mawrth, 2021 at 2.00 pm,
## Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*


| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Cwestiynau Cyhoeddus** | |
| 4. | **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau** | 1 - 2 |
| 5. | **Adroddiadau ar gyfer y Cyngor:** | |
| 5.1. | **PENDERFYNIADAU AM Y DRETH GYNGOR A CHYLLIDEBAU REFENIW A CHYFALAF AR GYFER 2021/22** | |
| 5.2. | **STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22** | 3 - 32 |
| 5.3. | **STRATEGAETH GYFALAF 2021/22 A CHYMERADWYO YCHWANEGIADAU A ARIENNIR GAN GRANTIAU I GYLLIDEB GYFALAF 2020/21** | 33 - 60 |
| 5.4. | **PENODI I BWYLLGOR YMGYNGHOROL LLYWIO AR AFON GWY** | 61 - 62 |
| 5.5. | **CYFANSODDIAD** | 63 - 620 |

6. **Rhestr o Gynigion**

6.1. **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol D. Batrouni**

Mae'r Cyngor hwn yn cymeradwyo Llywodraeth Lafur Cymru am ei chefnogaeth, yn enwedig yn ariannol, i'r Cyngor, ei drigolion a'n busnesau lleol yn ystod pandemig Covid-19. At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £45m i fusnesau'r Cyngor a Sir Fynwy. Mae hefyd yn braf iawn bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu setliad cyllideb y Cyngor 3.9%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Cyllidebodd y cyngor yn wreiddiol ar gyfer cynnydd o 0%, felly mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn derbyn tua £3.7m ychwanegol.

6.2. **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol J. Watkins**

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

a) Ar lefel o dim ond £67.25 yr wythnos, y Lwfans Gofalwr yw'r budd-dal isaf o'i fath.
b) Mewn ymateb i bandemig Covid-19, cynyddodd y Llywodraeth y lwfans safonol Credyd Cynhwysol ac elfen sylfaenol y Credyd Treth Gwaith £20 yr wythnos yn uwch na'r cynnydd arfaethedig ym mis Ebrill 2020, ond nid yw wedi cynyddu'r Lwfans Gofalwr.
c) Mae llawer o ofalwyr di-dâl yn wynebu caledi ariannol eithafol. Canfu arolwg diweddar gan Carers UK fod mwy na thraean o'r rhai sydd ar Lwfans Gofalwr yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae llawer wedi bod yn cael trafferth ers misoedd, gan ddibynnu'n aml ar fanciau bwyd i fwydo eu hunain a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Canfu arolwg Carers UK y canlynol: ***"****Teimlai 43% o ofalwyr y byddai cynnydd yn y Lwfans Gofalwr yn eu helpu, o ystyried y pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu."*

Mae'r Cyngor yn penderfynu'r canlynol:

a) Bod rhaid i ni sefyll i fyny dros ofalwyr, gwneud mwy i'w cefnogi, ac adeiladu cymdeithas fwy gofalgar wrth i ni ddod allan o bandemig Covid-19.

Bod y Cyngor yn cyfarwyddo Arweinydd y Cyngor i:

a) Ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, gan eu hannog i godi Lwfans Gofalwr gan £20 yr wythnos ar unwaith, yn unol â'r cynnydd mewn Credyd Cynhwysol.
b) Mae'r Cyngor yn penderfynu rhoi gohebiaeth gyffredinol i ofalwyr di-dâl, sefydliadau'r trydydd sector a chynghorau cymunedol er mwyn annog gofalwyr i hawlio'r Lwfans Gofalwr.

6.3. **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol F. Taylor**

Wrth gyflawni ei rôl i gefnogi cymunedau cynaliadwy, mae'r Cyngor hwn yn diogelu'r holl ofod amwynder cyhoeddus er budd cenedlaethau'r dyfodol ac yn cefnogi lliniaru a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd datganedig.

| | | |
|---|---|---|
| 6.4. | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol R John, Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**<br><br>Mae'r Cyngor hwn:<br>a) Yn nodi'r gwelliant sylweddol yng nghyfraddau mynychder Covid-19 yn Sir Fynwy a ledled Cymru ers dechrau cyfyngiadau Rhybudd Lefel Pedwar ar 20fed Rhagfyr.<br>b) Yn croesawu llwyddiant a chyflymder y rhaglen frechu ledled y DU<br>c) Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi map ffordd manwl i roi terfyn ar gyfyngiadau Covid-19 yng Nghymru | |
| 7. | **Cwestiynau'r Aelodau:** | |
| 7.1. | **O'r Cynghorydd Sirol T. Thomas i'r Cynghorydd Sirol R. John, Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**<br><br>A allai'r Aelod Cabinet hysbysu'r cyngor pa mor hyderus ydyw bod gan bob disgybl yn ysgolion Sir Fynwy liniaduron neu iPads i sicrhau mynediad da i 'ddysgu cyfunol' gan gynnwys disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a disgyblion sy'n dod o gartrefi sydd ag incwm is? | |
| 8. | **Adroddiadau ar gyfer y Cyngor:** | |
| 8.1. | **ADDASIADAU I'R TÎM ARWEINYDDIAETH STRATEGOL** | 621 - 626 |
| 8.2. | **CYHOEDDI DATGANIAD POLISI CYFLOG FEL SY'N OFYNNOL GAN Y DDEDDF LLEOLIAETH** | 627 - 640 |
| 9. | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2021** | 641 - 644 |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

P. Clarke
D. Batrouni
J.Becker
D. Blakebrough
L.Brown
A.Davies
L.Dymock
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
M.Feakins
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
M.Groucutt
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
R.John
D. Jones
L.Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
M.Lane
P. Murphy
P.Pavia
M. Powell
J.Pratt
R.Roden
V. Smith
B. Strong
F. Taylor
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
A. Watts
A. Webb
K. Williams
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.